Cymru Hourglass
Safer ageing · Stopping abuse
Heneiddio'n ddiogel · Rhoi'r gorau i gam-drin




Yn eich Cadu chi a'ch Anwyliaid yn


# DDIOGEL RHAG CAMDRINIAETH ARIANNOL

ffoniwch ein 24/7 llinell gymorth

**0808 808 8121**

# Ni yw Hourglass

## yr unig elusen ledled Prydain sy'n galw am roi diwedd ar niweidio, cam-drin a chamfanteisio ar bobl hŷn



# Yn eich Cadw chi a'ch Anwyliaid yn Ddiogel rhag Camdriniaeth Ariannol



**Gall camdriniaeth ariannol ddigwydd ar sawl ffurf; gall fod yn gynnil ac yn anodd i'w gweld. Os ydych chi neu unigolyn hŷn rydych chi'n eu hadnabod yn profi camdriniaeth, dydych chi ddim ar eich pen eich hunan yn anffodus. Gall y math yma o gamdriniaeth effeithio ar unrhyw un, waeth beth yw eu rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd na'u hunaniaeth rhywedd.**

Mae Hourglass yma i'ch helpu. Mae'r canllaw yma'n cynnwys gwybodaeth am beth yw camdriniaeth ariannol, sut i'w hadnabod pan fydd yn digwydd, a chyngor ar sut i warchod eich hunan ac eraill.

# Beth yw Camdriniaeth Ariannol?



**Enw arall am ddwyn arian neu eiddo, neu dwyllo unigolyn drwy fygwth neu roi pwysau arnyn nhw i drosglwyddo arian neu arwyddo dogfennau ariannol yw camdriniaeth ariannol. Gall camdriniaeth ariannol gyfyngu ar ryddid a dewis, ac mae'n aml yn digwydd ochr yn ochr â mathau eraill o gamdriniaeth.**

Gall camdriniaeth ariannol fod yn amlwg neu efallai y byddwch yn teimlo nad yw rhywbeth yn iawn, er enghraifft bod aelod o'r teulu neu ofalwr yn dwyn arian o'ch pwrs neu'ch waled heb eich caniatâd, neu'n rhoi pwysau arnoch chi i roi arian iddyn nhw. Dro arall, gallai fod yn anoddach sylwi arno, er enghraifft os bydd symiau bach o arian yn cael eu tynnu o'ch cyfrif bob mis. Pan fydd y math yma o gamdriniaeth yn cael ei gyflawni gan rywun rydych chi'n eu hadnabod, gall deimlo'n anodd delio â'r peth. Fodd bynnag, mae camdriniaeth ariannol yn drosedd ac mae cymorth ar gael i chi.

# Mae Camdriniaeth Ariannol yn cynnwys:

- Lladrata neu ddwyn arian neu eiddo.
- Masnachwyr twyllodrus yn codi ffi ormodol arnoch chi am waith ar eich eiddo.
- Rhywun ddim yn caniatáu i chi reoli eich arian eich hunan.
- Rhywun yn mynd i ddyled yn eich enw.
- Cael eich gorfodi i dalu am nwyddau rhywun arall.
- Rhywun yn defnyddio eich cyfrifon ariannol heb eich caniatâd.
- Rhywun yn eich twyllo neu'n eich gorfodi i lofnodi i drosglwyddo eiddo.
- Cael eich twyllo neu eich gorfodi i newid eich ewyllys neu'ch Atwrneiaeth.

# Arwyddion posib o Gamdriniaeth Ariannol:

- Llofnodion ar ddogfennau swyddogol, er enghraifft sieciau, sy'n edrych yn wahanol i lofnod yr unigolyn hŷn.
- Newidiadau sydyn mewn cyfrifon banc, gan gynnwys tynnu symiau mawr o arian allan heb esboniad.
- Cynnwys enwau ychwanegol ar gyfrif banc unigolyn hŷn heb esboniad.
- Trosglwyddo asedau yn sydyn ac heb esboniad i aelod o'r teulu neu i rywun y tu allan i'r teulu.
- Llawer o filiau heb eu talu.
- Pryder anarferol gan unrhyw unigolyn bod swm gormodol o arian yn cael ei wario ar ofal yr unigolyn hŷn.
- Newidiadau sydyn i ewyllysiau neu greu ewyllys yn sydyn.
- Pan fydd perthnasau sydd heb fod yn ymwneud â'r unigolyn yn ymddangos yn sydyn ac yn ceisio hawlio rheolaeth dros faterion neu eiddo'r unigolyn hŷn.



# Gallech deimlo'r canlynol:

- Cywilydd neu embaras.
- Yn ynysig neu'n gaeth.
- Nad ydych chi am ypsetio aelodau eraill o'r teulu.
- Byddai'n well gennych chi fyw gyda'r camdriniwr nag ar eich pen eich hunan.
- Yn ofni colli perthynas ag aelodau eraill o'r teulu, er enghraifft wyrion ac wyresau.
- Yn ansicr ynghylch sut i gael cymorth neu gyda phwy i siarad.
- Yn ofni gofyn am gymorth neu'n poeni am gael eich credu.
- Poeni nad ydych chi am i'r unigolyn sy'n eich cam-drin fynd i drwbl, ac yn gobeithio y bydd y gamdriniaeth yn stopio.
- Yn anobeithiol, os ydych chi wedi profi ymateb negyddol gan asiantaethau yn y gorffennol ar ôl adrodd am gamdriniaeth.

# Awgrymiadau a chyngor i chi:

- Os yw pobl eraill yn siopa ar eich rhan, cadwch olwg ar dderbynebau a faint sy'n cael ei wario.
- Ddylech chi ddim ond gadael i bobl rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw gael mynediad at eich cyfrifon, arian, budd-daliadau neu bensiynau.
- Byddwch yn ymwybodol o sgamiau dros y ffôn neu'r rhyngrwyd – peidiwch ag anfon arian na gwybodaeth cyn cadarnhau pwy yw'r unigolyn.
- Os oes pobl nad ydych chi'n ymddiried ynddyn nhw'n dod at ddrws eich tŷ, cofiwch nad oes rhaid i chi ateb. Ystyriwch osod camera intercom neu dwll sbecian er mwyn eich diogelwch.
- Dylech wneud gwaith ymchwil bob amser cyn cyflogi pobl i wneud gwaith ac atgyweiriadau ar eich tŷ. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael mwy nag un dyfynbris a chofiwch ddefnyddio cwmnïau adnabyddus. Os oes rhywun yn rhoi pwysau arnoch chi, gallai hyn fod yn destun pryder. Mae gennych hawl i ddweud 'na' ac i gau'r drws. Os ydych chi'n pryderu, ffoniwch 101, ac os ydyn nhw'n troi'n ymosodol neu'n amhriodol, ffoniwch 999.
- Gwiriwch eich cyfriflenni banc yn rheolaidd.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis cyfrineiriau diogel ar gyfer bancio ar-lein ac mai dim ond chi sy'n eu gwybod, ac os oes rhaid, ysgrifennwch nhw i lawr a'u cadw mewn man diogel.
- Cadwch ddogfennau pwysig a phethau gwerthfawr yn ddiogel ac allan o'r golwg.
- Meddyliwch pwy fyddech chi am iddyn nhw wneud penderfyniadau ar eich rhan yn y dyfodol petai chi'n colli'r gallu i wneud hynny, ac ystyriwch roi atwrneiaeth i rywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw.
- Cofiwch geisio cyngor proffesiynol bob amser wrth ystyried Atwrneiaeth.

# Awgrymiadau a chyngor os ydych chi'n pryderu am rywun arall:

**Dysgwch sut i adnabod arwyddion o gamdriniaeth ariannol, nid yw pob un yn amlwg.**

- Os ydych chi'n pryderu bod rhywun yn dioddef camdriniaeth ariannol, siaradwch yn agored gyda nhw am y peth os yw hi'n ddiogel ac yn briodol i chi wneud hynny.
- Gallai gwybod eich bod chi yno i'w helpu fod o gymorth iddynt, mae gwrando arnyn nhw'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr.
- Peidiwch â chynhyrfu os bydd unigolyn hŷn yn dweud wrthoch chi eu bod yn cael eu cam-drin, a byddwch yn sensitif i'r effaith emosiynol sy'n gysylltiedig â datgelu rhywbeth o'r fath.
- Cefnogwch nhw i chwilio am y cymorth sydd ei angen.
- Os yw'n ddiogel gwneud hynny, rhowch fanylion cyswllt Hourglass i'r unigolyn rydych chi'n pryderu amdanyn nhw.

# Sut gallwn ni eich cefnogi chi

**Yn Hourglass, rydyn ni'n ymroddedig i roi diwedd ar niweidio, cam-drin a chamfanteisio ar bobl hŷn. Mae ein llinell gymorth a'n gwasanaethau ar-lein ar gael ledled Prydain, ac mae ein tîm arbenigol yn gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a'ch cyfeirio at asiantaethau lleol priodol a allai gynnig gwasanaethau ychwanegol.**

Rydyn ni ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm, ac yn cynnig:

- Cymorth i unrhyw unigolyn sy'n profi camdriniaeth neu gamfanteisio, neu sydd mewn perygl o hynny.
- Cymorth os ydych chi'n ansicr a yw camdriniaeth neu gamfanteisio yn digwydd i chi neu rywun arall.
- Cymorth i unrhyw un sy'n pryderu am unigolyn hŷn, e.e. teulu, ffrindiau, cymdogion, gofalwyr cyflogedig neu weithwyr iechyd proffesiynol, ac ati.
- Gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â heneiddio'n ddiogel ac atal camdriniaeth

**Mae ein holl fanylion cyswllt ar gefn y llyfryn yma.**

Hourglass
Safer ageing · Stopping abuse
Heneiddio'n ddiogel · Rhoi'r gorau i gam-drin
Cymru

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

# Llinell gymorth 24/7: 0808 808 8141

Mae ein llinell gymorth yn gwbl gyfrinachol, ac mae'r rhif am ddim i'w ffonio o linell ffôn gartref neu ffôn symudol, ac ni fydd yn ymddangos ar eich bil ffôn.

## Neges destun: 07860 052906

Codir cyfradd ryngwladol safonol am negeseuon testun o du allan i Brydain, a bydd hynny'n amrywio ar sail lleoliad a chostau gwasanaeth eich darparwr ffôn. Bydd y rhif yn ymddangos ar eich bil ffôn ac yng nghofnodion eich ffôn, ond ni fydd y rhif yn cael ei adnabod fel un Hourglass.

**GWASANAETH NEGESU GWIB: www.wearehourglass.org**
**Gwybodaeth gan ein CHATBOT - www.wearehourglass.org**
**Gwybodaeth o'n BANC GWYBODAETH - knowledgebank.wearehourglass.org**
**E-bost: helpline@wearehourglass.org**


### Hourglass Lloegr

Swyddfa 8, Uned 5,
Canolfan Fusnes Stour Valley,
Brundon Lane, Sudbury,
Suffolk, CO10 7GB

**FF:** +44 (0) 20 8835 9280
**E:** enquiries@wearehourglass.org
**G:** www.wearehourglass.org

@wearehourglass_
facebook.com/wearehourglass

### Hourglass Cymru

D/o – Swyddfa 8, Uned 5,
Canolfan Fusnes Stour Valley,
Brundon Lane, Sudbury,
Suffolk, CO10 7GB

**FF:** +44 (0) 20 8835 9280
**E:** cymru@wearehourglass.org
**G:** www.wearehourglass.cymru

@hourglassCYMRU
facebook.com/hourglasscymru

### Hourglass Yr Alban

PO BOX 29244.
Dunfermline, KY12 2EG.

**T:** +44 (0) 20 8835 9280
**E:** scotland@wearehourglass.org
**W:** www.wearehourglass.scot

@HourglassScot
facebook.com/HourglassScotland

### Hourglass Gogledd Iwerddon

PO BOX 216.
Newry, BT35 5DH

**FF:** +44 (0) 20 8835 9280
**E:** nireland@wearehourglass.org
**G:** www.wearehourglass.org/ni

@HourglassNI
facebook.com/hourglassNI



CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND



Hourglass yw enw gweithredol Hourglass (Safer Ageing), elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestru: 1140543), ac yn yr Alban (rhif cofrestru: SCO46278). Mae Hourglass (Safer Ageing) wedi'i gofrestru fel cwmni yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif 07290092.